# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## CLA679 - Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2016 (Saesneg yn unig)

## Gweithdrefn

Y Weithdrefn negyddol Cyfansawadd

## Cefndir

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2003 i roi pwerau penodol ar gyfer dynodi dyfroedd trosiannol ac arfordirol lle y caiff pysgod cregyn eu cynaeafu'n fasnachol ac i osod gofynion ynghylch monitro unrhyw ddyfroedd dynodedig.

Gwneir y gwelliannau hyn yn dilyn diddymu Cyfarwyddeb Dyfroedd Pysgod Cregyn (79/923/EEC) gan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (2000/60/EC) a bwriedir sicrhau bod yr amddiffyniad a ddarperir gan y Gyfarwyddeb Dyfroedd Pysgod Cregyn yn parhau. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn dirymu Rheoliadau Dyfroedd Wyneb (Pysgod Cregyn) (Dosbarthiad) 1997, a roddodd y Gyfarwyddeb Dyfroedd Pysgod Cregyn ar waith.

## Craffu Technegol

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r Memorandwm Esboniadaol y nodi

> "The Regulations will apply to England and Wales and are subject to negative resolution procedure in the National Assembly for Wales and in both Houses of the UK Parliament. Because the Regulations will be subject to UK Parliamentary scrutiny, it is not considered reasonably practicable for this instrument to be made or laid bilingually".

## Craffu ar rinweddau

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**02 Mawrth 2016**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales